**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**22ain Medi 2008**

**Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub i Gymru 2008- 2011**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** I hysbysu Aelodau fod Fframwaith Cenedlaethol i Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cefndir**

**2.** Yn ystod cyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub, gynhaliwyd ar 16eg Mehefin 2008, fe gefnogodd Aelodau ymateb yr Awdurdod i'r ddogfen Fframwaith Cenedlaethol drafft. Anfonwyd hwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol. Mae'n dda nodi fod nifer o ymholiadau ac awgrymiadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ei ymateb, wedi cael eu gweithredu.

**3.** Roedd y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu presennol wedi achosi cryn ofid i'r tri Awdurdod Tân ac Achub a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y ddogfen gafodd ei hargraffu, mae hyn wedi cael ei egluro, yn cynnal y cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Gweinidog Cymreig priodol gyda Chadeiryddion Awdurdodau Tân ac Achub, Prif Swyddogion Tân a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r Fframwaith yn egluro rolau'r Fforwm Ymgynghori Tân ac Achub a'r

Ymgynghorydd Tân ac Achub annibynnol.
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi adolygu'r swm o drafodaeth sydd ei angen gan bob Awdurdod Tân ac Achub am gynigion eu Cynllun Lleihau Risg.

**4.** Roedd hefyd yn dda gweld eglurdeb pellach am ymrwymiad yr Awdurdodau Tân ac Achub mewn partneriaethau a Byrddau Gwasanaeth Lleol. "Fe ddylai Awdurdodau Tân ac Achub gymryd rhan yng ngwaith y Byrddau Gwasanaeth Lleol ar sail hyblyg, yn ddibynnol ar yr ardaloedd adnabuwyd mewn gweithrediad partneriaeth leol."

**5.** Mae cyfeiriadau at barhad busnes a'r angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut i symud ymlaen wedi Adolygiad Pitt i'r llifogydd yn Lloegr yn 2007 yn y Fframwaith cyhoeddedig. Hefyd, gan gydnabod cyfraniad llawer o ddiffoddwyr tân a gyflogir ar y System Dyletswydd Rhan Amser, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan eu bydd yn ymgymryd ag "adolygiad gwraidd a changen i weithrediad y system dyletswydd rhan amser yng Nghymru".

## 6. Argymhellion

Fod Aelodau yn nodi cyhoeddiad Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru 2008-2011 a'r adolygiadau hynny i'r ddogfen drafft fel amlinellir uchod.